CERTIFIED TRUE COPY – WELSH MINISTERS
GWENLLIAN STIFIN – 07/11/07

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 3173 (Cy. 278)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2007

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (O.S. 2005/1323 (Cy.97)), ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3221 (Cy.277)) a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/590 (Cy.66)).

**2.** Mae'r Rheoliadau yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2007/157/EC sy'n diddymu Penderfyniad 2005/317/EC ar fesurau brys ynglŷn â'r organedd a addaswyd yn enetig anawdurdodedig Bt 10 mewn cynhyrchion indrawn. (OJ Rhif L68, 8.3.2007, t.8).

**3.** Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir y byddant yn effeithiol o gwbl ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2007 Rhif 3173 (Cy. 278)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2007

*Gwnaed* *7 Tachwedd 2007*

*Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *8 Tachwedd 2007*

*Yn dod i rym* *30 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi at ddibenion yr adran honno o ran rheoli a rheoleiddio'r broses o ryddhau'n fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a rheoli a rheoleiddio'u symudiadau trawsffiniol(**2**), o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu neu ei fwydo i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd(**3**), o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**4**) a mesurau ym maes milfeddygaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd(**5**).

Bu ymgynghori agored a thryloyw yn ystod gwaith paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2003/2901. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn a'r tri dynodiad arall y cyfeiriwyd atynt i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2005/1971.
(**4**) O.S. 2005/2766.
(**5**) O.S. 2003/1246.

Cyngor(**1**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2007, deuant i rym ar 30 Tachwedd 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu**

**2.** Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2005(**2**) wedi'u dirymu.

**Diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004**

**3.**—(1) Mae'r testun Saesneg o Reoliad 8 (arolygu, atafaelu a dal gafael ar fwyd anifeiliaid a amheuir) o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004(**3**) wedi'i ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (5), yn lle'r ymadrodd "Subject to paragraphs (5A), (5B) and (6)" rhodder yr ymadrodd "Subject to paragraph (6)".

(3) Mae paragraffau (5A) a (5B) wedi'u hepgor.

**Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006**

**4.** Yn Atodlen 2 (diffiniad o gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol) i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006(**4**), mae paragraff (dd) wedi'i hepgor.

*G. Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

7 Tachwedd 2007

---

(**1**) OJ RhifL31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf ar y dyddiad y gwnaed yr offeryn hwn gan Reoliad (EC) Rhif575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).
(**2**) O.S. 2005/1323 (Cy.97).
(**3**) O.S. 2004/3221 (Cy.277). Cafodd y testun Saesneg o'r offeryn hwnnw ei ddiwygio gan O.S. 2005/1323 (Cy.97), ac mae'r Rheoliadau hyn yn awr yn dirymu'r diwygiadau hynny.
(**4**) O.S. 2006/590 (Cy.66).